# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PWYLLGOR CYFLWYNO A DATBLYGU POLISI, TRAWSNEWID A CHYNGOR Y DYFODOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DYDD LLUN, 17 GORFFENNAF 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd E T Kirchner (Cadeirydd) a fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Durke | C R Evans | T J Hennegan |
| C A Holley | S Pritchard | B J Rowlands |
| A H Stevens | L J Tyler-Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: C Anderson, J A Hale a/ac M B Lewis

5 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

6 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 25 Mai 2017 fel cofnod cywir.

7 **Y CYLCH GORCHWYL. (ER GWYBODAETH)**

Amlinellodd y Cadeirydd Gylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgor, er gwybodaeth.

Amlinellodd Sarah Caulkin, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol Dros Dro, y cefndir a'r rhesymeg a oedd yn sail i gyflwyno'r pwyllgorau cyflwyno a datblygu polisi (PCDP) i aelodau.

Dywedodd mai'r bwriad oedd eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu polisïau a sicrhau y cânt eu cyflwyno. Y nod yw y bydd y pwyllgorau'n sianel i alluogi aelodau a swyddogion weithio ar y cyd, gydag ymagwedd a arweinir gan aelodau er mwyn cyflwyno'r blaenoriaethau corfforaethol.

Rhoddodd fanylion i dynnu sylw at y gwahaniaeth sylweddol rhwng y PCDP (sy'n edrych ymlaen at y dyfodol) a Chraffu (sef adolygu'r hyn a gyflawnwyd eisoes), gan amlinellu sut maent yn wahanol i'r PCC oherwydd fe'u harweinir gan Flaenoriaethau

Corfforaethol drwy'r Cadeirydd ac nid drwy Aelod y Cabinet, er bydd y cysylltiadau agos gyda phroses y Cabinet ac Aelod y Cabinet yn parhau.

Dylai'r PCDP anelu i ddarparu canlyniadau clir yn dilyn cyflwyniad ymchwil, tystiolaeth a gwybodaeth, a dylid ceisio osgoi dyblu gwaith gyda'r pedwar PCDP arall, er y bydd gweithio ar y cyd yn angenrheidiol mewn rhai meysydd pwnc.

Trafodwyd amserau a dyddiadau'r cyfarfodydd gan y pwyllgor. Cynigwyd y dylid cynnal y pwyllgorau ar ddydd Mawrth am 9.30am o hyn allan.

**PENDERFYNWYD:** -

1) nodi'r cylch gorchwyl.
2) ystyried newid amser a dydd arfaethedig y pwyllgor.

8 **CYNLLUN GWAITH 2017 - 2018. (TRAFODAETH)**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Ddrafft i'r pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol Dros Dro a oedd yn cynnwys y canlynol:

**Rhaglen Waith y 100 niwrnod cyntaf**

- Sefydlu uned cyflwyno a datblygu polisi corfforaethol
- Cytuno ar raglen gyflwyno caeau 3G
- Dechrau diddymu contractau yn ôl y galw
- Dechrau comisiynu gwaith ar y cerdyn/ap dinesydd
- Cam nesaf y rhaglen gyflwyno
- Gweithio tuag at weithredu gweddarlledu
- Gweithio tuag at weithredu e-bleidleisio
- Adolygu masnacheiddio'r Plasty
- Adolygu polisi/proses gaffael i sicrhau y gall busnesau meicro/bach/canolog gael mynediad i gontractau.

**Amcanion PCDP ehangach o'r maniffesto**

Adolygiad 1:
- Sicrhau perchnogaeth gymunedol fwy o barciau a gweithio gyda sefydliadau 'cyfeillion parciau' i sicrhau cynaladwyedd a rheolaeth tymor hir parciau a mannau cyhoeddus.
- Ceisio defnyddio asedau cyhoeddus a chymunedol mewn ffordd fwy dychmygol, megis adeiladau'r cyngor.
- Dylai ysgolion fod wrth wraidd cymunedau, a byddwn yn gweithio gyda Phenaethiaid a chyrff llywodraethu sy'n sicrhau bod ysgolion yn hygyrch.

Adolygiad 2:
- Ymgymryd ag ymagwedd dim goddefgarwch tuag at drechu trais domestig a chydweithio â phartneriaid i gefnogi dioddefwyr trais domestig a chefnogi’r sawl sy'n dioddef ohono'n llawn.

Adolygiad 3:
- Parhau â rhaglen foderneiddio Abertawe Gynaliadwy

Cynhaliwyd trafodaeth ar bynciau'r Rhaglen Waith a thrafodwyd rôl y pwyllgor o ran y Rhaglen Waith. Nodwyd hefyd gan y pwyllgor fod yna nifer sylweddol o adolygiadau ar y Rhaglen Waith ddrafft ac a oedd yn cyd-fynd â chyflwyno a datblygu polisi. Cytunodd y pwyllgor ar feysydd y gwaith arfaethedig ond awgrymodd rhai newidiadau i eiriad y rhaglen waith i adlewyrchu mai cyflwyno a datblygu polisi yw rôl y pwyllgor. Yn ogystal, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am berthynas y pwyllgor â chraffu fel rhan o'r cylch gorchwyl.

Nododd y Cadeirydd eitem ychwanegol i'w hychwanegu i'r Rhaglen Waith, sef 'menywod yn cyrraedd y brig'.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Cymeradwyo Rhaglen Waith Ddrafft, yn amodol ar newidiadau i eiriad rhai eitemau.
2) Darparu mwy o wybodaeth am berthynas y pwyllgor â chraffu
3) Trefnu cyflwyniad/datganiad ar gyfer cyfarfod nesaf yr Uned Cyflwyno Strategol.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.10 pm

**CADEIRYDD**